**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-12-00 (p.3)**

**Dyddiad:** **7 Mehefin 2000**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl:** **Ymateb i *Ar Goll mewn Gofal* - Adroddiad Waterhouse**

## Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno'i sylwadau ar ymateb drafft y Cynulliad i *Ar Goll mewn Gofal* (Atodiad 1). Bu i'r Cynulliad yn ei ddadl yn y cyfarfod llawn ar 15 Mawrth roi'r gorchwyl o baratoi ymateb yn nwylo Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ysgrifennydd dros Addysg a Phlant a'u Pwyllgorau (Mae'r Pwyllgor Addysg cyn 16 oed hefyd yn ystyried yr ymateb drafft heddiw).

## Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn cyflwyno ymateb drafft y Cynulliad i *Ar Goll mewn Gofal.*

## Amseru

3. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi ei ymateb i *Ar Goll mewn Gofal* yn fuan. Ystyriwyd ymateb drafft y Llywodraeth yng nghyfarfod y Tasglu Gweinidogol ar Ddiogelwch Plant, y mae Ms Jane Hutt yn aelod ohono, ar 23 Mai. Bydd ymateb y Llywodraeth yn nodi y bydd y Cynulliad yn ymateb ar wahân.

## Cefndir

4. Mae ymateb drafft y Cynulliad yn rhoi ystyriaeth i'r gwaith sylweddol a ysgogwyd gan adroddiadau blaenorol, gan gynnwys yn benodol yr Adolygiad o Ddiogelwch Plant gan (Adroddiad Utting) a'r *Report of the Examination Team on Child Care Procedures and Practice in North Wales* (Adroddiad Adrianne Jones). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y Mesur Safonau Gofal, y Mesur Plant (sy'n Gadael Gofal), Deddf Amddiffyn Plant a deddfwriaeth arall sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Cyhoeddwyd hefyd ganllawiau sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu mae cynlluniau ar y gweill. Mae'r ymateb yn cymryd i ystyriaeth y farn a fynegwyd gan y Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg cyn 16 oed mewn trafodaethau blaenorol ar Adroddiad y Tribiwnlys ac, yn

fwy cyffredinol, y farn a fynegwyd gan Aelodau'r Cynulliad yn ystod dadl y cyfarfod llawn ar yr Adroddiad ar 15 Mawrth, a'r gwaith parhaus gydag Adrannau'r Llywodraeth lle bo ymatebion iddynt hwy, neu lle bo angen gweithio ar y cyd neu lle byddai hynny o fudd.

5. Derbyniwyd y fframwaith arfaethedig i'w weithredu, trwy'r rhaglen Plant yn Gyntaf, gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghynhadledd y Cynulliad/Cyfarwyddwyr ar 20 Mawrth. Fe'i croesawyd hefyd yn y gynhadledd a noddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i drafod yr Adroddiad, a drefnwyd gan Brifysgol Cymru, Bangor, ac a gynhaliwyd ar 2 Mai.

6. Mae'r ymateb drafft yn nodi'r fframwaith ar gyfer gweithredu newidiadau o fewn y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, trwy'r rhaglen Plant yn Gyntaf, a dan y penawdau gwrando ar blant, diogelu plant a gwell gwasanaethau ar gyfer plant. Mae hefyd yn ymateb i bob argymhelliad ac yn nodi'r cam i'w gymryd, a chan bwy, lle bo'n briodol.

**Cydymffurfio**

7. Nodir pwerau mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol i blant yn Neddf Plant 1989. Mae gan y Cynulliad hefyd bwerau i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Nid oes grym statud llawn i'r canllawiau, ond dylid yn gyffredinol gydymffurfio â hwy. Trosglwyddwyd pwerau dan y ddwy Ddeddf i'r Cynulliad Cenedlaethol gan y Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a chawsant eu dirprwyo i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

8. Nid oes materion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodolebau i'w trafod. Cysylltwyd â Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad yngln â'r papur hwn ac mae'n fodlon â'r agweddau'n ymwneud â chydymffurfio.

**Goblygiadau ariannol**

9. Mae'r Cynulliad wedi sicrhau bod adnoddau ychwanegol gwerth £48 miliwn ar gael i'r gwasanaethau cymdeithasol yn y setliad grant awdurdodau lleol ar gyfer 2000-2001 ac mae wedi nodi ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol neilltuo o leiaf draean o hwnnw ar gyfer gwasanaethau i blant ,yn arbennig dan Plant yn Gyntaf. Yn setliad eleni, nodwyd £2 filiwn ychwanegol o adnoddau canolog i weithredu argymhellion y Tribiwnlys, yn ogystal â £1.5 miliwn o adnoddau canolog cyllideb Datblygiad Gwasanaethau Plant.

10. Ar hyn o bryd nid yw'r ymateb yn gorfodi'r Cynulliad nac awdurdodau lleol i ymgymryd â beichiau newydd. Ystyrir datblygiadau fel ymateb i argymhellion unigol fel y byddont yn codi, ond gellir darparu ar gyfer y newidiadau mawr sydd ar y gweill mewn gwasanaethau plant trwy'r dyraniadau presennol.

**Themâu trawsbynciol**

11. Mae’r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed yn ystyried yr ymateb drafft heddiw.

**Gweithredu**

12. Gwahoddir Aelodau’r Pwyllgor i roi sylwadau ar destun ymateb drafft y Cynulliad Cenedlaethol a amlinellir yn atodiad 1.

**Cyswllt**

Chris Burdett, Is-adran Plant a Theuluoedd. Est 3936